# Cymdeithas Elusennol Ynys Môn

# Polisi Ethol

**1. Cyflwyniad**

1.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Etholiadau Aelodaeth Cymdeithas Elusennol Ynys Môn (CEYM) i Fwrdd Ymddiriedolwyr CEYM (y Bwrdd).

**2. Cyffredinol**

2.1 Mae Aelodau CEYM yn chwarae rhan hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu CEYM. Gyda rheolaeth yn y pen draw ar ddogfen lywodraethol CEYM, mae'n ddyletswydd ar Aelodau i ethol Ymddiriedolwyr o fewn eu haelodaeth i wasanaethu ar y Bwrdd, yn ogystal â recriwtio Ymddiriedolwyr annibynnol, Penodedig o gymuned ehangach Ynys Môn.

**3. Strwythur y Bwrdd**

3.1 Bydd Aelodau CEYM yn gyfrifol am benodi:

a. Hyd at 6 Ymddiriedolwr Etholedig o fewn eu haelodaeth; a

b. Hyd at 6 Ymddiriedolwr Penodedig (na ddylent fod yn Aelodau)

3.2 Y nifer lleiaf o ymddiriedolwyr elusen yw 3. Uchafswm nifer yr ymddiriedolwyr elusen yw 12.

3.3 Rhaid i Aelodau CEYM benodi holl Aelodau'r Bwrdd o fewn 6 mis i bob etholiad llywodraeth leol.

**4. Ymddiriedolwyr Etholedig**

4.1 Bydd Aelodau CEYM yn hwyluso'r broses o ethol Ymddiriedolwyr Etholedig ym mhob trydydd cyfarfod cyffredinol blynyddol. Bydd gofyn i Aelodau'n enwebu eu hunain i gymryd rhan yn yr Etholiad. Amlinellir y gweithdrefnau ar gyfer yr etholiad yng Ngweithdrefnau Etholiad CEYM.

4.2 Yn unol ag Adran 13.2 o'r Cyfansoddiad, bydd Ymddiriedolwyr Etholedig yn ymddeol yn y trydydd cyfarfod cyffredinol blynyddol yn dilyn y cyfarfod cyffredinol

blynyddol lle cyhoeddwyd eu hetholiad. Yn unol ag Adran 16 o'r Cyfansoddiad, mae unrhyw berson sy'n ymddeol fel Ymddiriedolwr yn gymwys i gael ei ailbenodi. Ni ellir ailbenodi ymddiriedolwr elusen etholedig sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn olynol am drydydd tymor yn olynol ond gellir ei ailbenodi ar ôl cyfnod o dair blynedd o leiaf.

**5. Dyletswyddau cyfreithiol Aelodaeth CEYM mewn Ethol Ymddiriedolwyr**

5.1 Rhaid i Aelodau CEYM weithredu er budd gorau CEYM, wrth wneud penderfyniadau a fydd yn galluogi CEYM i gyflawni ei ddibenion orau.

5.2 Rhaid i Aelodau beidio â gadael i'w buddiannau personol, eu barn wleidyddol na'u rhagfarnau effeithio ar eu hymddygiad fel Aelodau o CEYM wrth ethol a phenodi Ymddiriedolwyr.

5.3 Rhaid i Aelodau weithredu'n rhesymol ac yn gyfrifol ym mhob mater sy'n ymwneud â CEYM a gwneud penderfyniadau yn unol ag arfer gorau a'r rheolau a nodir yn nogfen lywodraethu CEYM.

**6. Gwrthdaro buddiannau**

6.1 Mae holl Aelodau CEYM yn "ex officio" ac yn etifeddu eu haelodaeth yn rhinwedd y swyddi sydd ganddynt – Cynghorwyr Sir Ynys Môn.

- Mae cynghorwyr sy'n gweithredu fel Cynghorwyr wedi'u rhwymo gan Gyfraith Gyhoeddus a rhaid iddynt weithredu er budd gorau'r Awdurdod Lleol.
- Mae cynghorwyr sy'n gweithredu fel Aelodau neu Ymddiriedolwyr elusen wedi'u rhwymo gan Gyfraith Elusennau a rhaid iddynt weithredu er budd gorau'r Elusen.

Rhaid i Aelodau beidio â gadael i'w buddiannau personol, eu barn wleidyddol na'u rhagfarnau effeithio ar eu hymddygiad fel Aelodau o CEYM wrth ethol a phenodi Ymddiriedolwyr.

**7. Beth i'w ystyried wrth recriwtio ymddiriedolwyr**

7.1 Pan fydd elusennau'n recriwtio ymddiriedolwyr newydd, dylai Aelodau roi sylw i:

- y sgiliau a'r profiad sydd gan unrhyw ymddiriedolwyr presennol, ac a oes unrhyw fylchau wedi'u nodi yn yr adolygiad blynyddol o sgiliau CEYM;
- sicrhau bod ymddiriedolwyr newydd yn gymwys i weithredu;
- sicrhau nad oes gan ymddiriedolwyr newydd wrthdaro buddiannau difrifol;
- sut i helpu ymddiriedolwyr newydd i ddeall eu cyfrifoldebau a gwaith yr elusen

7.2 Rhaid i bob Aelod ac Ymddiriedolwr, ni waeth sut y cânt eu penodi, weithredu er budd CEYM yn unig, a pheidio â gweithredu ar ran unrhyw grŵp penodol. Rhaid i bob Ymddiriedolwr reoli gwrthdaro buddiannau. Rhaid i bob Aelod reoli unrhyw wrthdaro teyrngarwch i'w gorff penodi.

**8. Matrics Sgiliau a Profiad CEYM – 2022**

8.1 Rhaid diweddaru'r Matrics Sgiliau a Profiad CEYM yn flynyddol. Rhaid i'r Bwrdd roi sylw i unrhyw newidiadau yng nghyfansoddiad y Bwrdd a/neu unrhyw sgiliau neu brofiadau nodwyd eu bod ar goll a allai effeithio ar allu'r CEYM i weithredu'n effeithiol a gyda gofal dyladwy.

8.2 Wrth gynnal adolygiad o sgiliau, rhaid i CEYM ystyried yr heriau (ar unwaith ac yn y tymor byr) y mae'n eu hwynebu, a pha sgiliau a phrofiad y gallai fod eu hangen i fynd i'r afael â hwy.

8.3 Rhaid i Aelodau, fel rhan o gorff llywodraethu CEYM, gynllunio ar gyfer olyniaeth yn ogystal â recriwtio – gan sicrhau ei effeithiolrwydd a'i adnewyddiad ei hun. Dylai ymddiriedolwyr feddu ar y wybodaeth, y profiad a'r sgiliau cywir i ganiatáu i CEYM gyflawni ei amcanion elusennol.

Cytunwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar: 14 Mehefin 2022

I'w adolygu cyn: Mehefin 2023